Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 90/2025

Dyddiad cyhoeddi: 17/09/2025

# Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a hawliau plant: canfyddiadau'r arolwg Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright ISBN Digidol 978-1-80633-379-0

Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a hawliau plant: canfyddiadau'r arolwg Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025

Awdur: Chris Timmins, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Timmins, C. (2025). Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a hawliau plant: canfyddiadau'r arolwg Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 90/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymwybyddiaeth-plant-o-ddeddfwriaeth-cosb-gorfforol-hawliau-plant

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Hannah Davies

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
   1.1 Cefndir ac amcanion ..... 3
   1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn ..... 5
   1.3 Profion ystadegol ..... 6
2. Ymwybyddiaeth o'r sefyllfa o ran cosbi plant yn gorfforol ..... 7
3. Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol 13
4. Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc ..... 16
5. Casgliadau ..... 21

Atodiad A – Holiadur yr arolwg ..... 23
Atodiad B – Dull Ymchwil ..... 26
   B.1 Samplu cwota cyfrannol ..... 27
   B.2 Dadansoddiad Chi-sgwâr ..... 27
Atodiad C – Diffiniad o raddau cymdeithasol ..... 28
   C.1 Gradd gymdeithasol ABC1 ..... 28
   C.2 Gradd gymdeithasol C2DE ..... 28
Atodiad D – Meintiau is-samplau ..... 29

## Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 2.1: Barn pa un a oeddent yn meddwl y caniateir i rieni ac eraill sy’n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol)................................................................ 7

Ffigur 2.2: Barn pa un a oeddent yn meddwl y caniateir i rieni ac eraill sy’n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol) ..................................................... 8

Ffigur 2.3: Faint o wybodaeth oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol)................................................................................. 9

Ffigur 2.4: Faint o wybodaeth oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol).................................................................. 10

Tabl 2.1: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy’n rhoi gofal? – Pawb, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 ............................................................................................. 11

Tabl 2.2: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy’n rhoi gofal? – Yn ôl blynyddoedd ysgol, canran yr ymatebwyr (nifer yr ymatebwyr), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 12

Tabl 2.3: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy’n rhoi gofal? – Yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol yr aelwyd, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025.................................. 13

Ffigur 3.1: Ymwybyddiaeth o’r gyfraith sy’n ei gwneud hi’n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 ................................................................................ 14

Ffigur 3.2: Ymwybyddiaeth o’r gyfraith sy’n ei gwneud hi’n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (canran) (Pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 ................................................................ 15

Ffigur 4.1: Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl blynyddoedd ysgol), ............................................................................................. 17

Ffigur 4.2: Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025................................................................................................................................ 18

Ffigur 4.3: Gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) (canran) (pawb ac yn ôl blynyddoedd ysgol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025.................................................................................................... 19

Ffigur 4.4: Gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 ........................................................................... 20

Tabl A1.1: Meintiau samplau’r is-grwpiau, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 ...................................................................................................................... 29

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir ac amcanion

1.1 Fe wnaeth Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru. Mae Adran 5 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd am CCUHP a'i Brotocolau Dewisol. Mae'r ddyletswydd hon yn rhoi ei heffaith i erthygl 42 CCUHP, y dylai llywodraethau wneud y confensiwn yn hysbys i blant a'u rhieni.

1.2 Fel rhan o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth am CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

1.3 Mae addysg hawliau dynol yn un o themâu trawsbynciol y cwricwlwm yng Nghymru, ac mae egwyddorion addysg hawliau dynol, a oleuir gan CCUHP a CCUHPA, yn rhan o'r gofynion ehangach y mae'n rhaid i leoliadau eu hystyried wrth ddylunio eu cwricwlwm.

1.4 Mae hyfforddiant ar gael i addysgwyr proffesiynol i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth am CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

1.5 Cyflwynwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[1] ar 25 Mawrth 2019. Ar 20 Mawrth 2020 fe gafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.6 Amcan trosfwaol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant, trwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu â

[1] Ym mis Mai 2020 cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailenwi'n Senedd Cymru

chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin ar blentyn neu guro plentyn sydd yn eu gofal.

1.7 Mae Adran 2 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r newid yn y gyfraith cyn i’r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Fe wnaeth yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ganolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio gyda chynulleidfaoedd penodol a hybu a chefnogi rhianta cadarnhaol tan haf 2021. Dechreuodd ymgyrch amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ym mis Mehefin 2021 gyda hysbysebu digidol, ac fe lansiodd yn llawn ym mis Medi 2021, chwe mis cyn cychwyn y newid i’r ddeddfwriaeth, ac roedd yn cynnwys hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus. Bu’r bwrlwm mwyaf o ran gweithgarwch cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, yn union cyn cychwyn y newid i’r ddeddfwriaeth. Mae gweithgarwch wedi’i dargedu gyda’r bwriad o gynnal ymwybyddiaeth o’r newid yn y gyfraith a hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol yn parhau.

1.8 Ym mis Ebrill 2024, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio Teulu Cymru, brand newydd i rieni plant 0 i 18 oed yng Nghymru. Mae’n dod ag ymgyrchoedd gofal plant a rhianta dan yr un to, gan ddarparu’r wybodaeth y mae ar rieni ei heisiau gan y Llywodraeth i gyd mewn un lle. Mae negeseuon ynghylch Rhoi Diwedd ar Gosb Gorfforol yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i Teulu Cymru, a ategir gan gyngor ymarferol a chyfeirio at adnoddau lle mae rhianta cadarnhaol yn y cwestiwn.

1.9 I gynorthwyo ymarferwyr i ddeall a chymhwyso’r gyfraith newydd, mae adnodd e-ddysgu wedi cael ei gynhyrchu. Mae hwn yn arfogi gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda theuluoedd a phlant i ymgodymu â’r newidiadau, gan sicrhau eu bod yn gallu hysbysu a chefnogi rhieni, plant, a phobl ifanc yn hyderus. Mae canllawiau ac adnoddau i gynorthwyo ymarferwyr i wreiddio ymwybyddiaeth a rhaeadru gwybodaeth berthnasol, gadarnhaol a grymusol i blant a phobl ifanc ynghylch y gyfraith wedi cael eu datblygu hefyd. Cyhoeddwyd yr adnoddau ym mis Hydref 2024.

1.10 Amcan yr ymchwil hon oedd darparu gwybodaeth sylfaenol am ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o’u hawl i gael eu diogelu rhag trais, eu

hymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'u hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth yn fwy eang am hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

1.11 Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol ac yn deall sut y mae'r ddeddfwriaeth yn eu diogelu ac i ddeall faint o wybodaeth ehangach sydd ganddynt am eu hawliau.

## 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.12 Mae'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar ddwy don ar Arolwg Omnibws Plant Beaufort. Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer y ddwy don hon rhwng 7 a 27 Hydref 2024 a rhwng 24 Mawrth ac 13 Ebrill 2025. Mae pob ton o ymchwil yn cyfweld â sampl sy'n seiliedig ar gwota cynrychiolaidd o fwy na 400 o blant a phobl ifanc 7 i 18 oed sy'n byw yng Nghymru. Fe gwblhawyd arolygon trwy ddull hunangwblhau ar-lein gan ddefnyddio panel ar-lein[2]. Mae data o ddwy don yr arolwg wedi cael ei gyfuno i ffurfio un set ddata i ddarparu sampl ar y cyfan o 888 o blant a phobl ifanc.

1.13 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am ymwybyddiaeth o hawl plant i gael eu diogelu rhag trais, ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac ymwybyddiaeth a gwybodaeth yn fwy eang am hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynhwyswyd cwestiynau demograffig hefyd fel arfer safonol yn yr Arolwg Omnibws Plant. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr ac mae i'w gael yn Atodiad A yn y ddogfen hon.

1.14 Sylwer efallai nad yw canrannau mewn rhai graffiau a thablau yn yr adroddiad hwn, lle gall yr ymatebydd ddewis un ateb yn unig, yn gwneud cyfanswm o 100% ac y gallant wneud cyfanswm o 99% neu 101% oherwydd talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Er enghraifft, gall graff ddangos tri ateb – 40%, 33% a 26% (sy'n gwneud cyfanswm o 99%) pan allai'r canrannau heb eu talgrynnu fod yn 40.4%, 33.3% a 26.3% yn y drefn honno.

---

[2] Grŵp o gyfranogwyr ymchwil sydd wedi cofrestru i gael cyswllt o bryd i'w gilydd i gwblhau arolygon ar-lein yw panel ar-lein.

**1.3 Profion ystadegol**


1.15 Drwy'r adroddiad hwn fe ddygir cymariaethau rhwng grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc (er enghraifft, y rhai mewn grwpiau blynyddoedd ysgol neu grwpiau rhywedd gwahanol) i ddeall a oes ganddynt agweddau neu wybodaeth sy'n amrywio. Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o'r boblogaeth. Pan fo gwahaniaeth rhwng dau grŵp yn cael ei ddisgrifio fel un 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad drwy siawns yn llai nag un ymhob 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

## 2. Ymwybyddiaeth o'r sefyllfa o ran cosbi plant yn gorfforol

2.1 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oeddent yn meddwl y caniateid i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Roedd y mwyafrif llethol (87%) o'r plant a phobl ifanc 7 i 18 oed a arolygwyd yn credu'n gywir nad oedd hyn yn cael ei ganiatáu. Dim ond 1 ymhob 10 (10%) oedd yn meddwl y caniateid i rieni / y rhai sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol, tra bo 3% yn ansicr.

2.2 Roedd canlyniadau'n gyson ar draws gwahanol grwpiau blynyddoedd ysgol – blwyddyn 2 i 6, blwyddyn 7 i 11 a blwyddyn 12 i 13. Ym mhob un o'r tri grŵp hyn, roedd y rhan fwyaf (89%, 86% ac 89% yn y drefn honno) yn meddwl nad oedd cosbi plant yn gorfforol gan rieni / rhai sy'n rhoi gofal yn cael ei ganiatáu fel a ddangosir yn Ffigur 2.1.

**Ffigur 2.1: Barn pa un a oeddent yn meddwl y caniateir i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol)**





Disgrifiad o ffigur 2.1: mae'r graff hwn yn dangos a yw ymatebwyr yn credu y caniateir i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol.

Sail: Pawb (888), blwyddyn 2 i 6 (268), blwyddyn 7 i 11 (299), blwyddyn 12 i 13 (188)

2.3 Mae Ffigur 2.2 yn dangos canfyddiadau ar gyfer yr un mesur yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol aelwydydd, y darperir diffiniadau ohonynt yn Atodiad C. Roedd mwyafrif cryf ym mhob grŵp yn credu'n gywir na chaniateid i rieni a'r rhai sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y rhai sy'n byw

mewn aelwydydd yn nosbarth ABC1 ychydig yn fwy tebygol o gredu y caniateid i blant yng Nghymru gael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni / y rhai sy'n rhoi gofal o'i gymharu â'r rhai mewn aelwydydd C2DE (13% o'i gymharu â 7%). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.2: Barn pa un a oeddent yn meddwl y caniateir i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol)**





Disgrifiad o ffigur 2.2: mae'r graff hwn yn dangos a yw ymatebwyr yn credu y caniateir i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl bechgyn a merched ac yn ôl gradd gymdeithasol yr aelwyd – ABC1 neu C2DE.

Sail: Pawb (888), bechgyn (383), merched (409), aelwydydd ABC1 (493), aelwydydd C2DE (301)

2.4 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn credu na chaniateid i rieni a'r rhai sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol nodi faint o wybodaeth oedd ganddynt am 'gael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni ac eraill sy'n rhoi gofal'. Fel a ddangosir yn ffigur 2.3, roedd oddeutu 6 ymhob 10 (58%) wedi clywed am hynny ac roedd ganddynt syniad gweddol dda beth oedd yn ei olygu. Roedd traean (33%) wedi clywed amdano ond nid oeddent yn siŵr beth oedd cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu ac roedd oddeutu 1 ymhob 10 (9%) yn ansicr faint o wybodaeth oedd ganddynt.

2.5 Roedd rhai gwahaniaethau ar y mesur hwn yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol (Ffigur 2.3). Roedd y rhai yn y grŵp ieuengaf, blwyddyn 2 i 6, yn llai tebygol o ddweud bod ganddynt syniad gweddol dda beth oedd cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu (51% o'i gymharu â 59% ar gyfer blwyddyn 7 i 11 a 63% ar gyfer blwyddyn 12 i 13) ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ansicr faint o wybodaeth oedd ganddynt (14% o'i gymharu â 7% a 4% yn y drefn honno). Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 2.3: Faint o wybodaeth oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol)**




Disgrifiad o ffigur 2.2: mae'r graff hwn yn dangos faint o wybodaeth honedig oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol.
Sail: Y rhai sy'n meddwl na chaniateir i rieni / y rhai sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol - pawb (794), blwyddyn 2 i 6 (245), blwyddyn 7 i 11 (268), blwyddyn 12 i 13 (170)

2.6 Roedd gwybodaeth am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal yn ei olygu'n dangos llai o wahaniaethau rhwng bechgyn a merched a grwpiau gradd gymdeithasol fel a ddangosir yn ffigur 2.4.

**Ffigur 2.4: Faint o wybodaeth oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025 (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol)**




Disgrifiad o ffigur 2.4: mae'r graff hwn yn dangos faint o wybodaeth honedig oedd ganddynt am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl bechgyn a merched ac yn ôl gradd gymdeithasol yr aelwyd – ABC1 neu C2DE.

Sail: Y rhai sy'n meddwl na chaniateir i rieni / y rhai sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol - pawb (794), bechgyn (383), merched (409), ABC1 (493), C2DE (301)

2.7 Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd wedi clywed rhywbeth am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal yn fwyaf tebygol o fod wedi cael gwybod am hyn gan athrawon neu'r cyngor ysgol (roedd 57% wedi clywed amdano yn y ffordd yma) a rhieni (51%). Y ddwy brif ffynhonnell wybodaeth arall ar gyfer hyn oedd y cyfryngau cymdeithasol (31%) a hysbyseb ar y teledu (26%). Dangosir canlyniadau llawn yn Nhabl 2.1.

**Tabl 2.1: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal? – Pawb, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr) |
|---|---|
| Athro/Athrawes neu'r Cyngor Ysgol | 57% (n.412) |
| Rhieni | 51% (n.373) |
| Cyfryngau cymdeithasol | 31% (n.222) |
| Hysbyseb ar y teledu | 26% (n.188) |
| Hysbyseb ar y radio | 8% (n.59) |
| Comisiynydd Plant Cymru | 7 %(n.52) |
| Cymru Ifanc / Young Wales | 6% (n.45) |
| Gweithiwr Ieuenctid | 6%(n.44) |
| Fforwm Ieuenctid neu Gyngor Ieuenctid Lleol | 6% (n.40) |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5% o'r ymatebwyr** | |
| Ddim yn gwybod | |
| Meic Cymru | |

Sail: y rhai sydd wedi clywed rhywbeth am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal (724)
(a) Efallai fod y tabl yn gwneud cyfanswm o fwy na 100% gan bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb
(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

2.8 Ceir canfyddiadau am ffynonellau gwybodaeth fesul grŵp blynyddoedd ysgol yn Nhabl 2.2. Er bod pob grŵp blynyddoedd ysgol wedi nodi'r un pedair prif ffynhonnell wybodaeth, roedd rhai gwahaniaethau wrth ystyried i ba raddau y crybwyllwyd y rhain, yn anad dim:

- roedd grwpiau blynyddoedd ysgol hŷn – blwyddyn 12 i 13 a blwyddyn 7 i 11 – yn llai tebygol o gael gwybodaeth gan eu rhieni na'r grŵp blynyddoedd ysgol ieuengaf – blwyddyn 2 i 6 (46% o'i gymharu â 52% a 63%, yn y drefn honno)

- roedd y grŵp blynyddoedd ysgol hynaf – blwyddyn 12 i 13 – yn fwy tebygol o gael gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol (46% o'i gymharu â 21% ar gyfer blwyddyn 2 i 6 a 26% ar gyfer blwyddyn 7 i 11)

2.9 Roedd y gwahaniaethau uchod yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Tabl 2.2: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal? – Yn ôl blynyddoedd ysgol, canran yr ymatebwyr (nifer yr ymatebwyr), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**

| Ymateb | Blwyddyn 2 i 6 | Blwyddyn 7 i 11 | Blwyddyn 12 i 13 |
|---|---|---|---|
| Athro/Athrawes neu'r Cyngor Ysgol | 63% (n.142) | 57% (n.160) | 55% (n.73) |
| Rhieni | 63% (n.141) | 52% (n.144) | 46% (n.62) |
| Cyfryngau cymdeithasol | 21% (n.48) | 26% (n.73) | 46% (n.62) |
| Hysbyseb ar y teledu | 21% (n.46) | 27% (n.77) | 26% (n.35) |
| Hysbyseb ar y radio | 6% (n.14) | 8% (n.21) | 9% (n.12) |
| Comisiynydd Plant Cymru | 7% (n.15) | 6% (n.16) | 10% (n.14) |
| Cymru Ifanc / Young Wales | <5 | 9% (n.24) | 10% (n.13) |
| Gweithiwr Ieuenctid | <5 | 5% (n.14) | 8% (n.10) |
| Fforwm Ieuenctid neu Gyngor Ieuenctid Lleol | <5 | 6% (n.16) | 8% (n.11) |

Sail: y rhai sydd wedi clywed rhywbeth am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal - blwyddyn 2 i 6 (209), blwyddyn 7 i 11 (251), blwyddyn 12 i 13 (163)
(a) Efallai fod y tabl yn gwneud cyfanswm o fwy na 100% gan bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

2.10 Roedd gwahaniaethau mewn ffynonellau gwybodaeth am gael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal ymhlith bechgyn a merched a grwpiau gradd gymdeithasol gwahanol yn llai amlwg nag ar gyfer grwpiau blynyddoedd ysgol gwahanol. Roedd y gwahaniaethau mwyaf fel a ganlyn:

- roedd bechgyn yn fwy tebygol o gael gwybodaeth o'r hysbyseb ar y teledu na merched – 29% o'i gymharu â 23%

- roedd y rhai sy'n byw mewn aelwydydd yn y dosbarth ABC1 yn fwy tebygol o gael gwybodaeth gan y Comisiynydd Plant na'r rhai mewn aelwydydd yn y dosbarth C2DE – 11% o'i gymharu â 3%

2.11 Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Tabl 2.3: O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal? – Yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol yr aelwyd, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**

| Ymateb | Bechgyn | Merched | ABC1 | C2DE |
|---|---|---|---|---|
| Athro/Athrawes neu'r Cyngor Ysgol | 58% (n.214) | 55% (n.197) | 59% (n.213) | 55% (n.199) |
| Rhieni | 52% (n.193) | 50% (n.178) | 53% (n.191) | 50% (n.182) |
| Cyfryngau cymdeithasol | 32% (n.117) | 30% (n.105) | 33% (n.120) | 28% (n.103) |
| Hysbyseb ar y teledu | 29% (n.107) | 23% (n.80) | 26% (n.93) | 26% (n.95) |
| Hysbyseb ar y radio | 11% (n.40) | 5% (n.19) | 10% (n.37) | 6% (n.21) |
| Comisiynydd Plant Cymru | 9% (n.33) | 5% (n.19) | 11% (n.39) | <5 |
| Cymru Ifanc / Young Wales | 7% (n.25) | 6% (n.20) | 8% (n.31) | <5 |
| Gweithiwr Ieuenctid | 7% (n.25) | 5% (n.19) | 5% (n.19) | 7% (n.25) |
| Fforwm Ieuenctid neu Gyngor Ieuenctid Lleol | 7% (n.25) | <5 | 7% (n.25) | <5 |

Sail: y rhai sydd wedi clywed rhywbeth am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy'n rhoi gofal - bechgyn (351), merched (371), ABC1 (451), C2DE (273)
(a) Efallai fod y tabl yn gwneud cyfanswm o fwy na 100% gan bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb


## 3. Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol

3.1 Ar ôl cael eu holi am eu dealltwriaeth gyffredinol am gosbi plant yn gorfforol, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr, yn benodol, a oeddent yn ymwybodol bod cyfraith yn ei lle a oedd yn atal pob achos o gosbi plant yn gorfforol gan rieni ac eraill sy'n rhoi gofal.

3.2 Dywedodd oddeutu tri chwarter (76%) eu bod yn ymwybodol bod y gyfraith hon yn ei lle. Nid oedd oddeutu 1 ymhob 5 (18%) wedi clywed am y gyfraith hon ac roedd 6% yn ansicr.

3.3 Roedd grwpiau blynyddoedd ysgol hŷn – blwyddyn 7 i 11 a blwyddyn 12 i 13 – yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r gyfraith na'r rhai ym mlwyddyn 2 i 6. (80% a 78% o'i gymharu â 70%, yn y drefn honno). Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.1: Ymwybyddiaeth o'r gyfraith sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**




Disgrifiad o ffifur 3.1: mae'r graff hwn yn dangos a oedd ymatebwyr yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol.
Sail: Pawb (888), blwyddyn 2 i 6 (268), blwyddyn 7 i 11 (299), blwyddyn 12 i 13 (188)

3.4 Ymhlith bechgyn a merched a grwpiau gradd gymdeithasol gwahanol aelwydydd nid oedd gwahaniaethau o'r fath yn amlwg fel a ddangosir yn ffigur 3.2.

**Ffigur 3.2: Ymwybyddiaeth o'r gyfraith sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (canran) (Pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**




Disgrifiad o ffigur 3.2: mae'r graff hwn yn dangos a oedd ymatebwyr yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl bechgyn a merched ac yn ôl gradd gymdeithasol yr aelwyd – ABC1 neu C2DE.

Sail: Pawb (888), bechgyn (383), merched (409), aelwydydd ABC1 (493), aelwydydd C2DE (301)


## 4. Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc

4.1 Roedd bron pob (99%) plentyn a pherson ifanc a holwyd fel rhan o'r arolwg yn ymwybodol bod ganddynt hawliau. Fodd bynnag, roedd lefel eu gwybodaeth am yr hawliau hyn yn amrywio. Roedd oddeutu dwy ran o bump (42%) yn ymwybodol bod ganddynt hawliau ond nid oeddent yn gwybod unrhyw beth amdanynt. Roedd cyfran debyg (41%) yn ymwybodol ohonynt ac yn honni y gallent restru ychydig ac roedd nifer llai (15%) yn honni eu bod yn gwybod cryn dipyn amdanynt.

4.2 Roedd lefel yr wybodaeth am hawliau'n amrywio yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol – gyda'r wybodaeth honedig am hawliau'n cynyddu gyda phob grŵp blynyddoedd ysgol. Er enghraifft, roedd 48% o'r rhai ym mlwyddyn 2 i 6 yn honni eu bod yn gallu rhestru ychydig o hawliau (37%) neu'n gwybod cryn dipyn amdanynt (11%). 53% gyda 40% yn gallu rhestru ychydig, a 70% gyda 50% yn gallu rhestru ychydig, yn y drefn honno, oedd y cyfrannau cyfatebol ymhlith blwyddyn 7 i 11 ac ymhlith blwyddyn 12 i 13.

4.3 Roedd y gwahaniaethau hyn yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.1: Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl blynyddoedd ysgol),**





Disgrifiad o ffigur 4.1: mae'r graff hwn yn dangos maint gwybodaeth ymatebwyr am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol.

Sail: Pawb (888), blwyddyn 2 i 6 (268), blwyddyn 7 i 11 (299), blwyddyn 12 i 13 (188)

4.4 Canfuwyd gwahaniaethau hefyd wrth archwilio canfyddiadau yn ôl gradd gymdeithasol aelwydydd. Fe wnaeth y rhai sy'n byw mewn aelwydydd ABC1 ddweud bod ganddynt lefelau uwch o wybodaeth am hawliau na'u cymheiriaid mewn aelwydydd C2DE. Fel a ddangosir yn ffigur 4.2, roedd 64% o'r rhai mewn aelwydydd ABC1 yn honni y gallent restru ychydig o hawliau neu'n gwybod cryn dipyn amdanynt o'i gymharu â 49% a ddywedodd hyn mewn aelwydydd C2DE. Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

4.5 Roedd gwybodaeth am hawliau ymhlith bechgyn a merched ar lefelau tebyg.

**Ffigur 4.2: Gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**




Disgrifiad o ffigur 4.2: mae'r graff hwn yn dangos maint gwybodaeth ymatebwyr am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl bechgyn a merched ac yn ôl gradd gymdeithasol yr aelwyd – ABC1 neu C2DE.

Sail: pawb (888), bechgyn (383), merched (409), aelwydydd ABC1 (493), aelwydydd C2DE (301)


4.6 Pan gawsant eu holi'n benodol ynglŷn ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) dywedodd oddeutu 6 ymhob 10 (58%) o blant a phobl ifanc eu bod yn ymwybodol ohono – roedd mwyafrif (36%) o'r grŵp yma, er eu bod wedi clywed amdano, yn ansicr beth oedd yn ei gynnwys tra bo 22% wedi dweud bod ganddynt syniad gweddol dda pa hawliau yr oedd yn eu cynnwys. Nid oedd oddeutu 4 ymhob 10 (39%) wedi clywed am CCUHP.

4.7 Roedd y rhai ym mlwyddyn ysgol 12 i 13 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o CCUHP na grwpiau blynyddoedd ysgol iau – roedd oddeutu dwy ran o dair (67%) yn ymwybodol ohono o'i gymharu ag ychydig dros hanner ar gyfer blwyddyn 7 i 11 (55%) a blwyddyn 2 i 6 (54%). Y grŵp blynyddoedd ysgol hŷn oedd fwyaf tebygol o fod â lefel uwch o wybodaeth am CCUHP hefyd – dywedodd 29% o'r rhai ym

mlwyddyn 12 i 13 fod ganddynt syniad gweddol dda am yr hawliau yr oedd yn eu cynnwys o'i gymharu ag 17% a 21% yn y drefn honno ymhlith y rhai ym mlwyddyn 7 i 11 a blwyddyn 2 i 6.

Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.3: Gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (canran) (pawb ac yn ôl blynyddoedd ysgol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**





Disgrifiad o ffigur 4.3: mae'r graff hwn yn dangos maint gwybodaeth ymatebwyr am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl grŵp blynyddoedd ysgol.

Sail: pawb (888), blwyddyn 2 i 6 (268), blwyddyn 7 i 11 (299), blwyddyn 12 i 13 (188)

4.8 Cofnodwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl grŵp gradd gymdeithasol – roedd y rhai mewn aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol a bod â gwybodaeth am CCUHP yn berthynol i'r rhai mewn aelwydydd C2DE fel a ddangosir yn ffigur 4.4. Roedd gwahaniaethau mewn ymwybyddiaeth yn llai amlwg yn ôl rhywedd ond roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddweud bod ganddynt syniad gweddol dda am yr hawliau y mae'n eu cynnwys. Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.4: Gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (canran) (pawb ac yn ôl rhywedd a gradd gymdeithasol), mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**




Disgrifiad o ffigur 4.4: mae'r graff hwn yn dangos maint gwybodaeth ymatebwyr am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dangosir canlyniadau ar lefel y sampl gyfan ac yn ôl bechgyn a merched ac yn ôl gradd gymdeithasol yr aelwyd – ABC1 neu C2DE.

Sail: Pawb (888), bechgyn (383), merched (409), aelwydydd ABC1 (493), aelwydydd C2DE (301)

## 5. Casgliadau

5.1 Roedd y mwyafrif llethol (87%) o blant a phobl ifanc 7 i 18 oed a arolygwyd yn ymwybodol eu bod yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan rieni neu rai sy'n rhoi gofal. Roedd y mwyafrif cryf hwn yn gyson ymhlith bechgyn a merched, grwpiau blynyddoedd ysgol gwahanol a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd ABC1 ac C2DE.

5.2 Pan gawsant eu holi ymhellach ynglŷn â faint oeddent yn ei wybod am yr hyn y mae cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu, roedd oddeutu 6 ymhob 10 yn meddwl bod ganddynt syniad gweddol dda, ond dywedodd y gweddill, oddeutu 4 ymhob 10, eu bod yn ansicr beth oedd yn ei olygu. Roedd plant iau ym mlwyddyn 2 i 6 yn llai gwybodus na grwpiau blynyddoedd ysgol hŷn.

5.3 Mae plant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael gwybod am gael eu diogelu rhag cosb gorfforol, yn bennaf, yn eu hysgol (gan eu hathro/eu hathrawes neu gyngor ysgol) neu gan eu rhieni. Y ddwy brif ffynhonnell wybodaeth arall oedd y cyfryngau cymdeithasol a hysbyseb ar y teledu. Ceir peth amrywiad yn hyn o beth rhwng grwpiau blynyddoedd ysgol, gyda'r grŵp blynyddoedd ysgol hynaf (blwyddyn 12 i 13) yn fwy tebygol o ganfod gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn llai tebygol o'i chanfod gan eu rhieni yn berthynol i'r grwpiau blynyddoedd ysgol iau.

5.4 Roedd oddeutu tri chwarter (76%) o blant a phobl ifanc yn ymwybodol bod cyfraith yn ei lle sy'n atal plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol gan rieni ac eraill sy'n rhoi gofal. Mae hyn ychydig yn is na'r gyfran a oedd yn credu na chaniateid i rieni ac eraill sy'n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol (87%) pan ofynnwyd iddynt am hyn heb gyfeirio at y ffaith bod deddfwriaeth yn ei lle.

5.5 Roedd bron pob (99%) plentyn a pherson ifanc a holwyd fel rhan o'r arolwg yn ymwybodol bod ganddynt hawliau, er bod maint yr wybodaeth am yr hawliau hyn yn gymysg. Dywedodd oddeutu 4 ymhob 10 o blant a phobl ifanc, er eu bod yn ymwybodol bod hawliau'n bodoli, nad oeddent yn gwybod unrhyw beth amdanynt.

Roedd yr wybodaeth hon yn amrywio gydag oedran gyda grwpiau blynyddoedd ysgol hŷn yn dweud bod ganddynt lefelau uwch o wybodaeth na grwpiau iau.

5.6 Roedd oddeutu 6 ymhob 10 plentyn a pherson ifanc yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), er bod mwyafrif o'r grŵp yma'n ansicr beth oedd yn ei gynnwys. Y grŵp blynyddoedd ysgol hynaf, blwyddyn 12 i 13, oedd fwyaf tebygol o fod yn ymwybodol o CCUHP.

## Atodiad A – Holiadur yr arolwg

Bydd yr ychydig o gwestiynau nesaf yn gofyn i chi beth ydych yn ei wybod am gosbi plant yn gorfforol. Ceir sawl math o gosb gorfforol. Gall olygu smacio, taro, slapio ac ysgwyd, ond mae mathau eraill hefyd. Nid oes atebion cywir neu anghywir.

1. Ydych chi’n meddwl y caniateir i rieni ac eraill sy’n rhoi gofal gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

[Os atebwyd ‘ydw’ i Gwestiwn 1, dylid mynd ymlaen i Gwestiwn 4
Os atebwyd ‘nac ydw’ neu ‘ddim yn gwybod’, dylid mynd ymlaen i Gwestiynau 2 a 3]

2. Faint ydych chi’n ei wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy’n rhoi gofal?

Wedi clywed amdano a syniad gweddol dda beth mae cael ein diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu

Wedi clywed amdano ond ddim yn siŵr beth mae cael ein diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu

Ddim yn gwybod

[os atebwyd, ‘wedi clywed amdano a syniad gweddol dda beth mae cael ein diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu’ neu ‘wedi clywed amdano ond ddim yn siŵr beth mae cael ein diogelu rhag cosb gorfforol yn ei olygu’ yng Nghwestiwn 2, dylid mynd ymlaen i Gwestiwn 3]

3. O ble gawsoch chi wybod am blant yn cael eu diogelu rhag cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni neu eraill sy’n rhoi gofal?

Rhieni

Athro/Athrawes neu’r Cyngor Ysgol

Fforwm Ieuenctid neu Gyngor Ieuenctid Lleol

Gweithiwr Ieuenctid

Comisiynydd Plant Cymru
Cymru Ifanc / Young Wales
Meic Cymru
Hysbyseb ar y teledu
Hysbyseb ar y radio
Cyfryngau cymdeithasol
Arall
Ddim yn gwybod

4. Ydych chi wedi clywed am y gyfraith yng Nghymru sy'n golygu bod pob achos o gosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon, gan gynnwys gan rieni, neu eraill sy'n rhoi gofal?

Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod

Bydd yr ychydig gwestiynau nesaf yn gofyn i chi beth ydych yn ei wybod am hawliau plant a phobl ifanc ar y cyfan

5. Pa ddatganiad isod sy'n disgrifio orau beth ydych chi'n ei wybod am hawliau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru?

Does gennym ni ddim hawliau
Mae gennym hawliau ond dydw i ddim yn gwybod unrhyw beth amdanynt
Mae gennym hawliau ac fe allwn i restru ychydig
Mae gennym hawliau ac rwy'n gwybod cryn dipyn amdanynt

6. Fe hoffem ganfod pa mor wybodus y mae pobl yn teimlo am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid oes atebion cywir neu anghywir. Faint ydych chi wedi'i glywed yn flaenorol am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

Wedi clywed amdano ac mae gen i syniad gweddol dda am yr hawliau y mae'n eu cynnwys

Wedi clywed amdano, ond ddim yn siŵr pa hawliau y mae'n eu cynnwys

Heb glywed amdano

Ddim yn gwybod

## Atodiad B – Dull Ymchwil

A1.1 Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy Arolwg Omnibws Plant Cymru Beaufort. Mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw'n ei awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan ddwyn budd o ran costau is.

A1.2 Mae sampl yr Arolwg Omnibws Plant wedi'i bwriadu i gynrychioli plant a phobl ifanc 7 i 18 oed sy'n byw yng Nghymru. Cynhelir arolygon gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint. Cysylltir ag ymatebwyr 16 i 18 oed yn uniongyrchol trwy'r panel. Cysylltir ag ymatebwyr 7 i 16 oed trwy eu rhieni / gwarcheidwaid (sy'n aelodau o'r panel) ac fe geisir caniatâd iddynt gwblhau'r arolwg.

A1.3 Mae platfform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio ag amryw godau ymddygiad a chanllawiau megis safonau'r Gymdeithas Ymchwil Barn ac Ymchwil i'r Farchnad Ewropeaidd (ESOMAR) a'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS). Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Caiff sawl gwiriad ansawdd data eu cynnwys yn system Cint gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA wrth gofrestru, gwiriadau ar gyfer adnabod ymatebwyr unigryw ac i ganfod ymddygiad twyllodrus. Hefyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac nid yw'n cynnwys ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

A1.4 Yn ystod yr arolwg defnyddiwyd rheolaethau cwota pleth ar oedran o fewn rhywedd. Yn ychwanegol at hynny, defnyddiwyd rheolaeth cwota ar wahân ar gyfer gradd gymdeithasol ac fe gynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

A1.5 Ar y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn pob rhywedd yn ogystal â gradd gymdeithasol a grwpiad Awdurdod Lleol i roi i bob cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Cyflwynir y ffigyrau yn yr adroddiad hwn i'r ganran lawn agosaf.

### B.1 Samplu cwota cyfrannol

A1.6 Pan gaiff data arolygon eu profi o safbwynt arwyddocâd ystadegol, gwneir tybiaeth bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan bod Arolwg Omnibws Plant Cymru'n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu), nid yw arwyddocâd ystadegol gwirioneddol yn gallu cael ei gadarnhau, a bod yn fanwl gywir. Felly, pan fo gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sy'n arwyddocaol o safbwynt ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95%. Ystyr hyn yw, pe bai'r arolwg yn defnyddio hap-sampl, y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy siawns yn llai nag un mewn 20.

### B.2 Dadansoddiad Chi-sgwâr

A1.7 Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng dau neu fwy o newidynnau categoreiddiol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. plant a phobl ifanc 7 i 18 oed sy'n byw yng Nghymru).

## Atodiad C – Diffiniad o raddau cymdeithasol

Mae'r atodiad hwn yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o raddau cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

### C.1 Gradd gymdeithasol ABC1

**A**

Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol uchel

**B**

Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol ganolradd

**C1**

Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol oruchwyliol, glerigol ac iau

### C.2 Gradd gymdeithasol C2DE

**C2**

Gweithwyr llaw crefftus

**D**

Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft

**E**

Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr radd isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

## Atodiad D – Meintiau is-samplau

Mae Tabl A1.1, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli.

**Tabl A1.1: Meintiau samplau'r is-grwpiau, mis Hydref 2024 a rhwng mis Mawth 2025 a mis Ebrill 2025**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---:|---:|
| **Rhywedd**[3] | | |
| Gwrywaidd | 440 | 455 |
| Benywaidd | 446 | 431 |
| **Grŵp Blynyddoedd Ysgol**[4] | | |
| Blwyddyn 2 i 6 | 268 | 287 |
| Blwyddyn 7 i 11 | 299 | 331 |
| Blwyddyn 12 i 13 | 188 | 152 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 564 | 456 |
| C2DE | 324 | 432 |

[3] Mae cyfanswm Gwrywaidd a Benywaidd yn 886. Roedd 3 ymatebydd hefyd a atebodd 'arall' neu 'gwell gen i beidio â dweud'

[4] Mae grŵp blynyddoedd ysgol yn gwneud cyfanswm o 755. Roedd 128 o ymatebwyr hefyd nad oeddent yn yr ysgol ar hyn o bryd – h.y. naill ai mewn addysg uwch neu ddim mewn addysg o gwbl. Roedd 3 ymatebydd a atebodd 'gwell gen i beidio â dweud'